Meysydd Cymorth Ysgrifennu Bid

Maes Arbenigedd:	**Yn cynnwys** (ond heb fod yn gyfyngedig i)**:**
Cwestiynau yr Achos dros Newid	Dangos sut mae'r prosiect yn cyd-fynd ag amcanion polisi, ac yn cyflawni yn eu herbyn, drwy gwmpasu meysydd megis:
	Disgrifiadau, ffit strategol (yn cynnwys cerrig milltir a phennu allbynnau, deilliannau, effeithiau, mesur buddion yn cynnwys asesiad gwaelodlin ac ati).
	Cysondeb strategol gyda phrif amcanion, mentrau a pholisïau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol
Cwestiynau Dadansoddiad Opsiynau	Dangos sut mae'r prosiect yn cyflawni'r gwerth cyhoeddus mwyaf i gymdeithas, drwy gwmpasu meysydd megis:
	Y dewisiadau - mae nifer o opsiynau wedi'u hystyried ac mae'r opsiwn ffafriedig yn cyflawni'r gwerth economaidd mwyaf gyda ffocws ar fuddion i ran-ddeiliaid lleol.
	Creu swyddi (uniongyrchol ac anuniongyrchol), mewnfuddsoddiad, gostyngiad mewn allyriadau CO2, ystyriaethau bioamrywiaeth, lleihad mewn costau gweithredu, incwm a gynhyrchir. Meintoli a chyfiawnhau'r holl fuddion.
Cwestiynau Llwybr Caffael	Dangos bod y prosiect yn hyfyw'n fasnachol drwy gwmpasu meysydd megis:
	Dangos fod y prosiect yn gallu caffael y datrysiadau a'r offer angenrheidiol o'r gadwyn gyflenwi, a bod cytundebau masnachol gweithredol a chynnal a chadw arwyddocaol wedi'u hystyried.
Cwestiynau Cyllid a Fforddiadwyedd	Dangos bod y prosiect yn fforddiadwy a bod y costau a gyflwynir yn realistig, drwy gwmpasu meysydd megis:
	Cefnogi/darparu cefnogaeth modelu a chyflwyniad ariannol (yn cynnwys adnabod arian cyfatebol).
Cwestiynau Trefniadau Cyflwyno	Dangos bod y prosiect yn gallu cael ei gyflwyno'n llwyddiannus a bod prif risgiau'r prosiect wedi'u hystyried, drwy gwmpasu meysydd megis:
	Dangos bod y strwythurau rheoli a chyfreithiol cywir yn eu lle i gyflwyno a gweithredu'r datrysiad. Llywodraethu Cadarn.
	Dangos bod prif risgiau wedi'u nodi a bod cynlluniau rheoli a lliniaru risg addas yn eu lle.
Meysydd Ychwanegol	Gwerthusiad i gynnwys monitro allbynnau, deilliannau, effeithiau, buddion.
	Asesiad Rheoli Cymorthdaliadau wedi'i ystyried a'i werthuso yn llawn.
	Darparu gwasanaethau yn y Gymraeg
	Darparu gwasanaethau yn Saesneg
	Unrhyw feysydd arbenigol eraill o ran ysgrifennu bidiau (manylwch os gwelwch yn dda)